## Astudiaeth Achos 2 – Mary.

Mae Mary yn asthmatig sy'n ymweld â'r meddyg am anaf ffêr.

**MEDDYG**: Mae eich pigwrn bellach wedi'i strapio'n gadarn, felly dylai gael cefnogaeth dda, gan adael i'r sigiad hwnnw wella. Tra'ch bod chi yma, alla i sôn am y brechlyn ffliw i chi? Yr ydych yn dioddef o asthma, felly tybed a fyddech yn ystyried cael eich brechu eleni. **Beth yw'ch barn chi amdano?**

**MARY**: Nid wyf wedi cael y ffliw am y ddwy flynedd ddiwethaf, felly nid wyf yn gweld diben cael brechiad.

**MEDDYG:** Rydych chi'n meddwl oherwydd nad ydych chi wedi cael y ffliw am y ddwy flynedd ddiwethaf, ni fyddwch chi'n ei gael eleni.

**MARY**: Ydw. Dwi'n lwcus. Dydw i ddim fel arfer yn cael y ffliw.

**MEDDYG**: Wel, beth ydych chi'n feddwl am ailystyried? Mae eich asthma yn parhau i fod yn broblem i chi. **Sawl gwaith yn y ddwy flynedd hynny y cawsoch drafferth anadlu neu beswch am gyfnod hir?**

**MARY:** Dair neu bedair gwaith, mae'n debyg. Ond nid yw hynny'n gysylltiedig â'r ffliw, nag ydy?

**MEDDYG:** Mae'r risg o gymhlethdodau oherwydd y ffliw yn uwch ar gyfer asthmatics. Mae eich llwybrau anadlu eisoes yn fwy sensitif ac os cewch y ffliw gallant fod yn llidus gan wneud anadlu'n galetach. **Beth fyddech chi'n ei wneud i sicrhau eich bod yn cadw'n iach drwy fisoedd y gaeaf?**

**MARY:** Rwy'n lapio'n gynnes ac yn bwyta'n iach. Mae wedi sicrhau nad wyf wedi cael y ffliw y llynedd na'r flwyddyn flaenorol.

**MEDDYG:** Mae hynny'n ddigon teg ac rwy'n deall eich pwynt yn llwyr. Dwi'n meddwl mai beth dwi'n ceisio ei wneud yw eich gwneud yn ymwybodol o'r pethau a allai effeithio ar eich iechyd ac y gellir eu hosgoi. Caiff llawer o bobl eu heffeithio gan y ffliw a chânt eu dal yn y gwely am ddyddiau ac eto gall y brechiad atal hyn rhag digwydd. **Pa effaith fyddai dal y ffliw yn ei chael ar eich bywyd?**

**MARY:** Dwi'n deall eich pryderon. Os ydw i'n onest yna mae'n debyg y byddwn i'n colli ychydig ddyddiau o waith. Ni allwn fforddio hynny'n awr mewn gwirionedd.

**MEDDYG**: Felly, gyda hynny mewn golwg, sut ydych chi'n teimlo nawr am gael y brechiad?

**MARY**: Mae'n debyg bod yn rhaid i mi gyfaddef bod eich awgrym yn un synhwyrol. Beth yw'r broses?

**MEDDYG**: Gwych. Felly yr hyn rydych chi'n ei ddweud yw eich bod chi'n gallu gweld y cysylltiad rhwng eich asthma a'r brechiad. Rwy'n falch eich bod am wneud rhywbeth am hyn ac mae'n rhywbeth y gallwn ei wneud i chi heddiw.

**CODI'R PWNC**

**ENNILL CANIATÂD**

**CWESTIYNAU PENAGORED**

**GWRANDO MYFYRIOL/GWRANDO'N DDA**

**CWESTIWN PENAGORED**

**CWESTIWN PENAGORED**

**MYNEGI EMPATHI**

**CWESTIWN PENAGORED**

**CWESTIWN PENAGORED**

**CADARNHAD SY'N CRYNHOI**

Mae'r MEDDYG yn "codi'r mater" mewn modd nad yw'n wrthdrawiadol ac yn "ennill caniatâd" i gario ymlaen gyda'r sgwrs: **"Tra'ch bod chi yma, alla i sôn am y brechlyn ffliw i chi?"**

Defnyddir cwestiynau penagored drwy gydol y sgwrs, gan sicrhau nad yw llif y sgwrs yn cael ei gau i lawr gydag atebion ie neu na lletchwith:

**"Beth yw'ch barn chi amdano?"**

**"Beth fyddech chi'n ei wneud i sicrhau eich bod yn aros yn iach drwy fisoedd y gaeaf"**

**"Pa effaith fyddai cael y ffliw yn ei chael ar eich bywyd?"**

Dangosir empathi ac nid oes 'dymp data' yn ceisio newid meddwl y claf:

**"Mae hynny'n ddigon teg ac rwy'n deall eich pwynt yn llwyr."**

Mae'r MEDDYG yn gorffen y sgwrs yn dda, gan gadarnhau'r dewisiadau cadarnhaol a chrynhoi'r hyn sydd wedi digwydd. **"Gwych. Felly yr hyn rydych chi'n ei ddweud yw eich bod chi'n gallu gweld y cysylltiad rhwng eich asthma a'r brechiad."**